



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

## Trwydded Gyffredinol ar gyfer Symud Moch

Yn unol ag Erthygl 12 Gorchymyn Rheoli Clefydau (Cymru) 2003, (y "Gorchymyn Rheoli Clefydau")<sup>1</sup> mae Gweinidogion Cymru drwy'r drwydded hon yn awdurdodi symud moch o fewn Cymru, yn unol a'r amodau canlynol.

### Cyffredinol

1. Cyn symud unrhyw anifeiliaid, mae'n rhaid i'r perchennog/ceidwad archwilio'r moch fydd yn cael eu symud am arwyddion o unrhyw glefyd hysbysadwy (gan gynnwys Clwy'r Traed a'r Genau). Os oes unrhyw le i gredu bod clefyd hysbysadwy arnynt, rhaid rhoi gwybod i'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA)<sup>2</sup> yn ddi-oed. Ni chaniateir symud unrhyw foch o dan y drwydded hon a gedwir ar yr eiddo y mae'r anifeiliaid yn symud ohono tra bo'r amheuaeth o glefyd yn cael ei harchwilio neu yn ôl y cyngor gan APHA.

### Glanhau a diheintio

2. Mae'n rhaid glanhau a diheintio'n drwyadl unrhyw gerbyd a ddefnyddir ar gyfer symud moch o dan y drwydded hon yn unol â'r gofynion a nodir yng Ngorchymyn Cludo Anifeiliaid (Glanhau a Diheintio) (Cymru) (Rhif 3) 2003 (fel y'i diwygiwyd) a Gorchymyn Lles Anifeiliaid (Cludo) 2007. Ni fydd hynny'n lleihau'r angen i gydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol perthnasol eraill mewn perthynas ag unrhyw symudiad (gweler **Atodiad D** ar ddiogelu anifeiliaid wrth eu cludo a gweithgarwch cysylltiedig).

### Symudiadau nad yw'r drwydded hon yn eu caniatáu

3. Ni chaniateir defnyddio'r drwydded hon i symud moch:
  - O farchnad o unrhyw fath i farchnad arall o unrhyw fath
  - O farchnad o unrhyw fath i ganolfan gasglu neu ganolfan grynhoi
  - O ganolfan grynhoi i farchnad o unrhyw fath
  - O ganolfan grynhoi i ganolfan grynhoi
  - O ladd-dy i unrhyw fan arall
  - O ganolfan grynhoi i fferm
  - O farchnad gigydda benodol i unrhyw eiddo ac eithrio lladd-dy
  - O gasgliad mewn canolfan gigydda i unrhyw eiddo ac eithrio lladd-dy

<sup>1</sup> Mae'r cyfeiriadau at ddeddfwriaeth yn y drwydded hon yn gyfeiriadau at y ddeddfwriaeth fel y'i diwygiwyd o bryd i'w gilydd.

<sup>2</sup> Gallwch gysylltu ag APHA trwy ffonio 0300 303 8268

- O farchnad i ganolfan ffrwythloni artiffisial
  - O ganolfan grynhoi gymeradwy i unrhyw fan arall ac eithrio: porthladd neu faes awyr; lladd-dy ym Mhrydain Fawr; yr eiddo yr anfonwyd y moch ohono i'r ganolfan grynhoi<sup>3</sup>; neu i farchnad gigyddu benodol.
4. Ni cheir defnyddio'r drwydded i symud moch rhwng tir comin (sef tir ble mae gan y ceidwad neu'r berchennog hawl cofrestredig i bori'r comin, fel y'i diffinnir ym mharagraff 9(3) yn Atodlen 1 o Orchymyn Rheoli Clefydau) ac unrhyw eiddo ar wahân i:
- eiddo sydd ym meddiant perchennog neu geidwad y moch; neu
  - eiddo sydd ym meddiant unrhyw berson arall sydd â hawl cofrestredig i bori'r comin dan sylw.
5. Ni cheir symud moch anwes o dan y drwydded hon, oni bai eu bod yn cael eu symud o un eiddo amaethyddol i un arall. Os mai'r bwriad yw dychwelyd moch anwes (yn cynnwys yr rhai yr eir â nhw am dro) ar eu hunion i'r safle y cawsant eu symud ohono, dylid eu symud o dan drwydded gerdded yn unol ag erthygl 20 Gorchymyn Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2011 ("y Rheoliadau Adnabod Moch") a roddir gan APHA. Bydd manylion y llwybr wedi'u marcio arni. Mae'r trwyddedau hyn yn ddilys am hyd at flwyddyn a disgwylir i berchennog y mochyn anwes gadw'r drwydded ar ei berson wrth iddo fynd â'r mochyn am dro.

#### Y rheol 20 niwrnod

6. Ni chaiff unrhyw fochyn ei symud o safle os cafodd moch eu symud i'r safle hwnnw yn yr 20 niwrnod blaenorol neu os cafodd gwartheg, geifr neu ddefaid eu symud iddo yn y chwe niwrnod diwethaf. Ceir crynodeb o'r eithriadau perthnasol o dan y Gorchymyn Rheoli Clefydau mewn perthynas â'r rheol hon yn **Atodiad A**.

#### Tagio Moch, Dogfennau Symud a Chadw Cofnodion

7. Rhaid i bob symudiad gydymffurfio â'r Rheoliadau Adnabod Moch. Bydd cydymffurfio â darpariaethau'r Rheoliadau Adnabod Moch yn un o amodau'r drwydded hon. Ni fydd hyn yn lleihau'r angen i gydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol perthnasol eraill mewn cysylltiad â symud anifeiliaid.

#### Llwytho/Dadlwytho Sawl Gwaith ar yr un Siwrnai

8. Caniateir llwytho neu ddadlwytho sawl gwaith ar yr un siwrnai a ganiateir o dan y drwydded hon cyn belled ag y cydymffurfir â'r amodau a nodir yn **Atodiad B** oni bai bod unrhyw fesurau yn y dyfodol yn gwahardd hynny.

#### Mannau aros

9. Caniateir aros ar y siwrnai symud anifeiliaid o dan y drwydded hon, cyn belled ag y cydymffurfir â'r amodau a nodir yn **Atodiad C** ac oni bai bod unrhyw fesurau yn y dyfodol yn gwahardd hynny. Ni chaniateir trosglwyddo moch rhwng cerbydau (na'u dadlwytho ac eithrio mewn argyfwng) mewn manau aros ar y siwrnai, ni waeth pa un a drefnwyd ymlaen llaw i aros ai peidio ac eithrio ar siwrnai lle cafwyd cytundeb i lwytho neu ddadlwytho sawl gwaith, yn unol â'r cyfarwyddiadau a nodir yn **Atodiad B**.

---

<sup>3</sup> Ond yn achos moch sydd wedi ateb y gofyn preswyl perthnasol sy'n ofynnol gan yr UE a chwblhau'r gwaharddiad symud priodol ar safle cychwyn y daith, bydd y rheini'n cael symud o ganolfan grynhoi gymeradwy i fferm arall ym Mhrydain Fawr sy'n wahanol i'r un yr anfonwyd hwy ohoni yn wreiddiol i'r ganolfan grynhoi gymeradwy.

## **Cymysgu Rhywogaethau**

10. Caiff anifeiliaid o fwy nag un rhywogaeth deithio mewn un cerbyd ar unrhyw un adeg.

## **Hysbysu am Symudiadau**

11. Rhaid hysbysu bob tro y symudir moch o dan drwydded hon yn unol â'r Rheoliadau Adnabod Moch.<sup>4</sup>
12. Er mwyn cael symud moch i safle at ddibenion bridio (gan gynnwys dychwelyd o'r safle y symudon nhw iddo i fridio) heb i hynny gychwyn gwaharddiad symud, rhaid bod a) cyfleuster ynysu cymeradwy yn cael ei ddefnyddio ar y safle yn unol â'r Gorchymyn Rheoli Afiechydon; a b) rhaid i'r derbynnydd gwblhau'r datganiad yn Rhan II o'r drwydded a'i hanfon at yr Awdurdod Lleol perthnasol heb oedi.

## **Symud anifeiliaid i sŵ**

13. Nid yw symud moch i sŵ o sŵ neu rhwng mwy nag un sŵ a drwyddedir o dan Ddeddf Trwyddedu Sŵau 1981 yn dod o dan y Gorchymyn Rheoli Clefydau (fel y'i diwygiwyd). Nid yw symud y cyfryw anifeiliaid felly yn dod o fewn telerau'r drwydded hon.

## **Awdurdodau Meddiannaeth Unigol (SOAs)**

14. Ni chewch ddefnyddio'r drwydded hon i symud moch o unrhyw safle o fewn Awdurdod Meddiannaeth Unigol i safle y tu allan i'r SOA hwnnw tra bod safle o fewn yr SOA hwnnw o dan waharddiad symud.

## **Dilysrwydd y Drwydded**

15. Ni cheir symud moch i safle neu o safle o dan y drwydded hon os byddai hynny'n groes i unrhyw fesurau rheoli clefydau hysbysadwy eraill sy'n weithredol yn ystod cyfnod y symud arfaethedig.
16. Ni cheir defnyddio'r drwydded hon i symud unrhyw foch sydd wedi'u gwahardd rhag eu symud o dan unrhyw hysbysiad a gyhoeddwyd boed o dan Erthygl 13 y Gorchymyn Rheoli Clefydau neu beidio.
17. Heb leihau atebolrwydd unrhyw berson arall sy'n torri unrhyw un o'r amodau hyn, cyfrifoldeb perchennog/ceidwad y moch sy'n cael eu symud o dan y drwydded fydd sicrhau eu bod yn cael eu symud bob amser yn unol â'r amodau hyn ac y cydymffurfir â'r amodau hynny.

## **Daw'r drwydded hon i rym am 0:01 o'r gloch ar 11 Medi 2017**

Llofnodwyd gan .....

Tony Joss

O dan awdurdod Gweinidogion Cymru

Dyddiedig 11 Medi 2017

Mae'r drwydded hon drwy hyn yn dirymu pob trwydded flaenorol.

---

<sup>4</sup>Gweler [Y Canllaw i Geidwaid Moch](#)

**RHAN 1**

**DEDDF IECHYD ANIFEILIAID 1981**

**GORCHYMYN RHEOLI CLEFYDAU (CYMRU) 2003 (FEL Y'I DIWYGIWYD)**

**DATGANIAD GAN DDERBYNNYDD MOCH(YN)\* MAGU/ADRODDIAD AR  
FOCHYN YN DYCHWELYD ADREF AR ÔL SYMUDIAD I FAGU\***

Rwyf i, ..... (*enw*) yn datgan fy mod wedi derbyn y mochyn/moch\* fel a ganlyn:

Nodau Adnabod Unigol

**Yn**

Cyfeiriad Safle Pen y Daith:									
CPH Safle Pen y Daith:									

**O**

Cyfeiriad Safle Cychwyn y Daith:									
CPH Safle Cychwyn y Daith:									

**Ar** ..... (*dyddiad*)

Yr wyf yn datgan y bwriedir defnyddio'r mochyn hwn/moch hyn\* at ddibenion bridio ar safle pen y daith a enwir uchod, ac y caiff/cânt\* ei gadw/eu cadw\* mewn cyfleuster ynysu a gymeradwywyd drwy hysbysiad gan arolygydd milfeddygol, neu

\*Yr wyf yn datgan fod y mochyn hwn/ moch hyn\* a ddefnyddiwyd at ddibenion bridio ar safle cychwyn y daith yn dychwelyd i safle pen y daith uchod, ac y caiff/cânt\* ei gadw/eu cadw\* mewn cyfleuster ynysu am gyfnod o 20 diwrnod o ddyddiad cyrraedd y safle.

Llofnodwyd: .....

Dyddiad:.....

**(\*dileer yn ôl y gofyn)**

# ATODIAD A

## Y Rheol Gwahardd Symudiadau ac Eithriadau

### Y Gwaharddiad Symud 6 Niwrnod / 20 Niwrnod

1. Os symudir un neu fwy o ddefaid, gwartheg, geifr neu foch i unrhyw safle, ni chaniateir symud anifail sydd eisoes ar y safle o'r safle yn yr amserau a nodir yn yr is-baragraffau isod (y 'cyfnod gwahardd symud') oni bai y gwneir hynny yn unol â'r eithriadau i'r cyfnod gwahardd symud.
  - a) Bydd symud unrhyw wartheg, defaid neu geifr i safle yn golygu y daw unrhyw wartheg, geifr, defaid a/neu foch sydd eisoes ar y safle hwnnw o dan waharddiad symud 6 niwrnod.
  - b) Bydd symud moch i safle yn golygu y daw moch sydd ar y safle o dan waharddiad symud 20 niwrnod ac y daw gwartheg, defaid neu eifr sydd ar y safle hwnnw o dan waharddiad symud 6 niwrnod.
2. Os symudir unrhyw un o'r anifeiliaid uchod ar droed drwy unrhyw safle nad yw ym meddiant perchennog neu geidwad y stoc a symudir, daw gwaharddiad symud perthnasol i rym (fel a nodir uchod) ar y safle hwnnw hefyd.

### Eithriadau i'r Cyfnod Gwahardd Symud

#### Unedau Cwarantín

3. Ni fydd symud gwartheg, defaid a geifr i safle yn golygu y daw gwaharddiad symud i rym cyn belled a'u bod yn cael eu cadw mewn uned gwarantín, heb gysylltiad ag anifeiliaid eraill am chwe niwrnod wedi iddynt gyrraedd Uned Gwarantín gymeradwy.
4. Dim ond gwartheg, defaid a geifr y gellir eu cadw mewn Uned Gwarantín gymeradwy.
5. Os oes gennych anifeiliaid mewn Uned Gwarantín a bod anifeiliaid eraill yn cael eu symud iddi cyn eu bod yn cael eu symud o'r Uned Gwarantín, ni chaiff anifail adael yr Uned Gwarantín cyn dyddiad rhyddhau olaf yr anifail olaf a roddir yn yr Uned Gwarantín.
6. Rhaid i geidwad gofnodi:
  - a. Symudiad anifail i mewn i'r Uned Gwarantín o fewn **24 awr** ar ôl y symudiad trwy'r CTS (Cattle Tracing System)(BCMS) ar gyfer gwartheg ac EID Cymru ar gyfer defaid a geifr;
  - b. Symudiad allan o Uned Gwarantín **o fewn tri niwrnod** ar ôl y symudiad trwy'r CTS (Cattle Tracing System)(BCMS) ar gyfer gwartheg ac EID Cymru ar gyfer defaid neu geifr; a
  - c. phob symudiad yng nghofrestr y daliad o fewn 36 awr ar ôl y symudiad
7. Ni chaiff unrhyw un symud anifail o safle'n syth o Uned Gwarantín oni bai ei fod yn cael ei symud o dan un o'r amodau isod.

## **Symudiadau i farchnadoedd / canolfannau casglu / sioeau / archwiliadau brîd**

8. Os caiff anifail ei symud i safle sydd wedi'i drwyddedu o dan Orchymyn Crynadau Anifeiliaid (Cymru) 2010 ar gyfer arwerthiant, sioe neu arddangosfa, er mwyn ei anfon ymlaen o fewn Prydain Fawr at ddibenion ei fagu, ei besgi neu ei ladd, neu ar gyfer archwiliad i gadarnhau nodweddion y brîd penodol, ni ddaw gwaharddiad symud i rym ar y safle hwnnw.

### **Ceirw**

9. Ni fydd symud ceirw i safle yn golygu y daw unrhyw anifail arall ar y safle o dan waharddiad symud. Ni fydd symud gwartheg, defaid, geifr neu foch i'r safle yn golygu y daw ceirw ar y safle o dan waharddiad symud.

### **Tir Comin**

10. Caniateir i anifeiliaid symud rhwng tir comin ac eiddo sydd ym meddiant y perchennog neu'r ceidwad heb i waharddiad symud ddod i rym ar y naill na'r llall. **Rhaid** fod gan y perchennog neu'r ceidwad hawl cofrestredig i bori'r comin dan sylw.
11. Pan fydd moch yn dychwelyd o dir comin i eiddo sydd ym meddiant y perchennog neu'r ceidwad, daw gwaharddiad ugain niwrnod ar symud moch sydd ar yr eiddo hwnnw i unrhyw le arall ac eithrio yn ôl i'r tir comin a daw gwaharddiad chwe niwrnod ar symud gwartheg, defaid, geifr a moch sydd yn yr eiddo hwnnw i unrhyw le arall ac eithrio yn ôl i'r tir comin.

## **Anifeiliaid wedi'u Mewnforio / Anifeiliaid i'w Hallforio / Eu masnachu â'r UE**

12. Ni fydd anifeiliaid byw sydd wedi eu mewnforio o drydedd wlad neu anifeiliaid byw sydd wedi eu symud o Aelod-Wladwriaeth yr UE yn peri i'r gwaharddiad symud ddod i rym yn y safle cyntaf y byddant yn cael eu cadw ynddo (ar ôl y porthladd neu faes awyr i mewn i'r wlad, lle na ddaw gwaharddiad symud i rym chwaith).
13. Bydd yn rhaid i anifeiliaid sy'n cael eu symud i aelod-wladwriaeth arall yr UE neu eu hallforio i drydedd wlad gydymffurfio â gofynion preswyl yr UE, ond (ac eithrio defaid a geifr sy'n cael eu hallforio i fridio neu eu pesgi) ni fydd angen cadw at unrhyw waharddiad symud a fydd mewn grym ar safle cychwyn y daith

## **Symud anifeiliaid i'w lladd**

14. Gellir symud anifeiliaid o safle yn syth i ladd-dy, canolfan gasglu i'w lladd, man casglu penodedig neu farchnad gigydda, ni waeth pa un a gafodd yr anifeiliaid eu symud i'r safle hwnnw yn y 6 diwrnod blaenorol neu beidio (neu 20 niwrnod yn achos moch ar safle y symudwyd moch eraill iddo).
15. Gellir symud gwartheg, defaid a geifr o Uned Gwarantyn yn syth i ladd-dy, canolfan gasglu i'w lladd, man casglu penodedig neu farchnad gigydda, ni waeth pa un a gafodd yr anifeiliaid hynny neu anifeiliaid eraill eu symud i'r Uned Gwarantyn yn y 6 diwrnod blaenorol neu beidio.
16. Ni chaiff unrhyw anifail ddychwelyd o farchnad ladd benodedig neu fan casglu penodedig i'w safle gwreiddiol na'i symud i unrhyw le heblaw lladd-dy.

## **Awdurdod Meddiannaeth Unigol (i'w ddisodli gan y broses adolygu CPH)**

17. Os caiff anifeiliaid eu symud i safle o fewn yr SOA o'r tu allan i'r grŵp hwnnw o safleoedd, bydd gwaharddiad symud o 6 niwrnod (neu 20 niwrnod ar gyfer moch ar

ddaliad y symudir moch iddo) rhag symud anifeiliaid o unrhyw safle yn yr SOA i unrhyw safle y tu allan i'r SOA, onid oes rhyw eithriad arall yn gymwys.

### **Symud anifeiliaid i'w trin gan filfeddyg**

18. Caniateir symud pob anifail i safle i'w drin gan filfeddyg, ni waeth pa un a gafodd anifeiliaid eu symud i'r safle y daethon nhw ohono yn y chwe niwrnod blaenorol ai peidio. Unwaith y bydd yr anifeiliaid ar safle'r milfeddyg bydd yn rhaid eu hynysu'n llwyr (ac eithrio moch) oddi wrth yr holl anifeiliaid eraill sy'n bresennol ar y safle. Oni gwneir hyn, rhaid cychwyn gwaharddiad symud chwe niwrnod neu gyfnod o chwe niwrnod mewn Uned Gwarantín wedi iddyn nhw ddychwelyd i'r safle gwreiddiol.
19. Nid yw safle lle rhoddir triniaeth filfeddygol yn dod o dan y rheolau ar wahardd symudiadau a chaiff pob anifail (a'u hepil a aned ar y safle milfeddygol), ac eithrio moch, ddychwelyd i'r safle gwreiddiol heb i waharddiad symud ddod i rym pan ddychwelant i'r safle hwnnw ar yr amod iddynt gael eu hynysu rhag anifeiliaid eraill wrth gael triniaeth filfeddygol. Yn achos moch, ni ddaw gwaharddiad symud i rym pan ddychwelant i'w safle gwreiddiol cyn belled â'u bod yn cael eu cadw mewn uned ynysu a gymeradwywyd gan APHA am 20 diwrnod ar ôl dychwelyd.

### **Symud i/o Ganolfan Ffrwythloni Artiffisial**

20. Nid yw safle lle y rhoddir triniaeth ffrwythloni artiffisial (AI) yn dod o dan y rheolau ar wahardd symudiadau.
21. Caniateir symud moch i Ganolfan AI, ni waeth pa un a gafodd anifeiliaid eu symud i'r safle y daethon nhw ohono yn y chwe niwrnod blaenorol (neu 20 niwrnod ar gyfer moch ar ddaliad y symudir moch eraill iddo) neu beidio.
22. Caniateir i foch ddychwelyd i'r safle gwreiddiol heb i waharddiad symud ddod i rym ar yr amod eu bod yn cael eu hynysu mewn uned sydd wedi'i chymeradwyo gan yr APHA am 20 niwrnod ar ôl iddynt ddychwelyd, Fel arall, daw gwaharddiad symud i rym.

### **Symud anifail i labordy ar gyfer profion diagnostig**

23. Ni fydd angen cadw at waharddiad symud fydd mewn grym ar safle cychwyn y daith ac ni ddaw gwaharddiad symud i rym ym mhen y daith pan gaiff anifail ei symud i Canolfan Ymchwil Filfeddygol neu labordy ar gyfer profion diagnostig er mwyn penderfynu a oes afiechyd arno, neu a yw wedi dod i gysylltiad ag afiechyd. Unwaith y bydd yn y labordy, bydd yn rhaid ei ynysu'n llwyr (ac eithrio moch) oddi wrth yr holl anifeiliaid eraill sydd ar y safle.
24. Caiff anifeiliaid (gan gynnwys epil a aned yn y labordy) ac eithrio moch, ddychwelyd i'r safle y daethant ohono heb i waharddiad symud ddod i rym ar yr amod iddynt gael eu hynysu rhag anifeiliaid eraill wrth gael profion diagnostig. Yn achos moch, ni ddaw gwaharddiad symud i rym pan ddychwelant i'r safle y daethant ohono ar yr amod eu bod yn cael eu cadw mewn uned ynysu a gymeradwywyd gan APHA am 20 diwrnod ar ôl dychwelyd.
25. Yn achos gwartheg, defaid a geifr, os oedd anifail yn cael ei gadw mewn Uned Gwarantín gymeradwy cyn ei symud i labordy ar gyfer profion diagnostig, cyn belled ag iddo gael ei ynysu rhag anifeiliaid eraill wrth gael triniaeth feddygol, rhaid ei ddychwelyd i'r Uned Gwarantín am chwe niwrnod namyn nifer y dyddiau y bu yn yr Uned Gwarantín cyn ei symud ar gyfer profion.

## **Anifeiliaid bridio**

26. Ni ddylai moch bridio mewn uned ynysu, sydd wedi ei chymeradwyo gan APHA, gael rhannu'r uned ag unrhyw anifeiliaid sydd wedi eu hynysu yno am unrhyw reswm arall.

27. Ni fydd symud moch at ddibenion bridio yn golygu y daw gwaharddiad symud i rym ar y safle bridio, cyn belled ag y bodlonir yr amodau canlynol:

- a. cyn ei symud, naill ai fod y mochyn yn cadw at unrhyw waharddiad symud sydd mewn grym ar safle cychwyn y daith, neu, fel arall, ei fod yn cael ei ynysu am 20 niwrnod cyn i'r symud ddigwydd mewn uned ynysu sydd wedi'i chymeradwyo gan APHA;
- b. y caiff ei roi am 20 niwrnod wedi iddo gyrraedd mewn uned ynysu sydd wedi'i chymeradwyo gan APHA;
- c. bod y sawl sy'n derbyn yr anifail yn llofnodi ac yn anfon datganiad i'r awdurdod lleol, yn unol â Rhan II o'r Drwydded Gyffredinol ar gyfer Symud Moch sy'n dweud bod yr anifail yn cael ei symud ato i fridio (drwy ddatganiad ar y drwydded symud);
- d. bod pob mochyn yn cael ei dagio;
- e. nad oes mochyn arall a gafodd ei symud i'r safle bridio yn yr 20 niwrnod diwethaf yn cael ei roi yn yr uned ynysu sydd wedi'i chymeradwyo gan APHA, gyda'r mochyn sy'n cael ei symud;
- f. bod unrhyw foch eraill a roddir yn yr uned ynysu sydd wedi'i chymeradwyo gan APHA gyda'r mochyn sy'n cael ei symud yn aros yno nes y daw cyfnod 20 niwrnod i ben ar ôl i'r mochyn sy'n cael ei symud gael ei roi yn yr uned;

28. Ni ddaw gwaharddiad symud i rym pan fydd mochyn yn dychwelyd o'r safle bridio i safle cychwyn y daith, ar yr amod bod naill ai'r safle bridio a'r safle cartref yn rhan o "byramid" (gweler isod) a bod amodau'r pyramid yn cael eu bodloni neu, fel arall bod y mochyn yn cael ei roi mewn uned ynysu sydd wedi'i chymeradwyo gan APHA am 20 niwrnod ar ôl iddo ddychwelyd.

## **Eithriadau ar gyfer Safleoedd Moch sydd wedi'u cymeradwyo o dan "PRIMO"**

29. Symudiadau y cyfeirir atynt yn Erthygl 21 o'r Gorchymyn Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2011 ("PRIMO"), h.y. symudiadau "pyramid" lle y bwriedir cadw'r mochyn i fridio neu i'w fagu, ac sy'n cael ei symud o le a gymeradwyir gan Weinidogion Cymru i safle pen y daith, ar yr amod bod y symudiad wedi'i awdurdodi gan arolygydd milfeddygol o dan yr erthygl honno. Ni fydd angen i'r anifail gadw at unrhyw waharddiad symud a fydd mewn grym ar safle cychwyn y daith, ni fydd gwaharddiad symud arno chwaith ar safle pen y daith a chaiff hefyd ddychwelyd o'r safle bridio heb i waharddiad symud ddod i rym.

## **Symudiadau i Sioeau ac o Sioeau (Moch)**

30. Ceir symud moch i sioeau heb iddynt orfod cadw at waharddiad symud fydd mewn grym ar safle cychwyn y daith, ar yr amod bod nod adnabod unigol ar bob mochyn ac iddo gael ei gadw mewn uned ynysu a gymeradwywyd gan APHA am yr 20 niwrnod cyn ymadael am y sioe.

31. Caiff moch ddychwelyd o sioe i'r safle y gwnaethant deithio ohono i fynd i'r sioe heb i waharddiad symud ddod i rym ar y safle hwnnw, ar yr amod eu bod yn cael eu rhoi mewn



uned ynysu a gymeradwywyd gan APHA am 20 niwrnod ar ôl cyrraedd. Rhaid ynysu'r moch ar eu pen eu hunain ac ni ddylent rannu'r uned ag unrhyw rywogaeth arall.

# ATODIAD B

## Llwytho a Dadlwytho Sawl Gwaith ar yr un Siwrnai

### Cyffredinol

1. Ni cheir cyfyngiadau ar lwytho a dadlwytho sawl gwaith ar yr un siwrnai wrth gludo ceirw yn unig, ar wahân i gydymffurfio â'r darpariaethau glanhau a diheintio Gorchymyn Cludo Anifeiliaid (Glanhau a Diheintio) (Cymru) (Rhif 3) 2003 (fel y'i diwygiwyd).
2. Caniateir llwytho neu ddadlwytho sawl gwaith ar yr un siwrnai wrth gludo gwartheg, defaid, geifr a moch (gan gynnwys llwythi sy'n cynnwys ceirw), cyn belled ag y bodlonir yr amodau canlynol:
  - a. ni chyfyngir ar faint o weithiau y codir llwyth ar yr un siwrnai wrth gludo anifeiliaid i un gyrchfan, nac ar faint o weithiau y dadlwythir ar yr un siwrnai o gychwyn o un man cychwyn (a allai fod yn farchnad);
  - b. waeth sawl gwaith y codir llwyth ar yr un siwrnai, rhaid i'r holl anifeiliaid gael eu gollwng yn yr un gyrchfan, oni bai eu bod yn mynd i un lladd-dy neu fwy (ond nid i unrhyw eiddo o fath arall);
  - c. ac eithrio pan gludir anifeiliaid i ladd-dai (gweler (b) uchod), ni ellir cyfuno mewn un siwrnai y ddwy weithred sef llwytho sawl gwaith ar yr un siwrnai a dadlwytho sawl gwaith ar yr un siwrnai;
  - d. dim ond ar siwrnai i ladd-dy y caniateir llwytho da byw sawl gwaith o farchnad o unrhyw fath neu ganolfan gasglu ar yr un siwrnai, a hynny ddim ond os y farchnad (marchnadoedd) a'r/neu'r ganolfan gasglu (canolfannau casglu) yw'r eiddo olaf y llwythir da byw ynnddi cyn cyrraedd y lladd-dy;
  - e. lle ymwelir â chadwyn o safleoedd gan lwytho sawl gwaith ar y siwrnai i fynd ag anifeiliaid i'w lladd, ni chaniateir y symudiad hwn os nad lladd-dy/lladd-dai yw pen taith y gadwyn o ymweliadau;
  - f. wrth lwytho/dadlwytho sawl gwaith ar yr un siwrnai, rhaid i hynny ddigwydd ar ymyl y safle gan ddefnyddio'r dulliau cymeradwy a ddisgrifir isod;
  - g. caiff anifeiliaid o fwy nag un rhywogaeth deithio mewn un cerbyd ar unrhyw un adeg.
  - h. pan fydd anifeiliaid yn teithio o dan drwydded unigol, bydd yn rhaid i bob grŵp o anifeiliaid(h.y. yr anifeiliaid o bob eiddo lle y llwythir y cerbyd) deithio o dan drwydded ar wahân.

D.S. Nid ystyrir bod aros i lwytho neu i ddadlwytho anifeiliaid yn fannau aros ar y siwrnai. Nodir darpariaethau aros ar y siwrnai ar wahân yn **Atodiad C**.

### Llwytho Sawl Gwaith ar yr un Siwrnai

3. Mae'n rhaid defnyddio un o'r dulliau canlynol

#### (a) Ramp ar ben ramp

Dylid llwytho'r anifeiliaid sydd i'w casglu ar gerbyd yr eiddo. Bydd y cerbyd wedi'i lanhau a'i ddiheintio'n drwyadl yn unol â Gorchymyn Cludo Anifeiliaid (Glanhau a Diheintio) (Cymru) (Rhif 3) 2003 (fel y'i diwygiwyd). Bydd yn rhaid trosglwyddo'r anifeiliaid o'r cerbyd hwn i'r cerbyd casglu mewn man sydd cyn agosed at ffin derfyn yr eiddo ag sy'n ymarferol ond nid ar ffordd gyhoeddus. Bydd y cerbyd casglu a ddefnyddir i gludo'r anifeiliaid yn cyrraedd yr eiddo ac yn parcio ar dir ag iddo wyneb galed. Gostyngir ramp y cerbyd sy'n casglu'r anifeiliaid a bydd cerbyd yr eiddo yn bacio ac yn gostwng ei ramp ar ben ramp y cerbyd casglu. Cyn dechrau trosglwyddo anifeiliaid, bydd yn rhaid codi clwydi/rhwystrau/gatiau addas i atal yr anifeiliaid rhag dianc.

#### **(b) Defnyddio llociau**

Bydd angen codi dau loc, â giât yn arwain o'r naill i'r llall. Mae'n rhaid i Loc 1 fod yn ddigon mawr i ddal y cerbyd cyfan sy'n casglu'r anifeiliaid. Bydd angen i'r lloc hwn fod ag wyneb galed e.e. concriid. . Nid oes yn rhaid bod gan Loc 2, a all fod yn adeilad neu ran o adeilad, wyneb galed. Caiff ei ddefnyddio i ddal yr anifeiliaid cyn eu llwytho. Rhaid i'r llociau fod cyn agosed at ffin derfyn yr eiddo ag sy'n ymarferol ond nid ar ffordd gyhoeddus.. Rhaid gyrru'r cerbyd sy'n casglu'r anifeiliaid i mewn i Loc 1. Rhaid cadw'r giât rhwng y ddau loc ar gau nes bod y cerbyd cyfan sy'n casglu'r anifeiliaid fod yn Lloc 1. Unwaith y bydd y cerbyd casglu y tu mewn i Loc 1, gellir agor y giât sy'n cysylltu'r ddau loc a llwytho'r anifeiliaid. Ar ôl defnyddio'r wyneb galed a'r lloc, rhaid eu glanhau a'u diheintio'n drwyadl, gan ddefnyddio diheintydd a gymeradwyir.

D.S. Ni fydd angen i Loc 1 amgáu'r cerbyd sy'n casglu'r anifeiliaid os oes yna gyfleusterau llwytho diogel arbenigol ar ffin derfyn yr eiddo lle bydd drysau ochr a/neu ramp y cerbyd sy'n casglu'r anifeiliaid yn gallu bod gyfwyneb â gatiau'r ardal llwytho i rwystro anifeiliaid rhag dianc.

### **Dadlwytho sawl gwaith ar yr un Siwrnai**

4. Mae'n rhaid defnyddio un o'r dulliau canlynol:

#### **a) Ramp ar ben Ramp**

Bydd yn rhaid trosglwyddo'r anifeiliaid i'r cerbyd casglu mewn man sydd cyn agosed at ffin derfyn yr eiddo ag sy'n ymarferol ond nid ar ffordd gyhoeddus.. Bydd y cerbyd sy'n dadlwytho'r anifeiliaid yn cyrraedd yr eiddo ac yn parcio ar dir ag iddo wyneb galed. Gostyngir ramp y cerbyd sy'n dadlwytho'r anifeiliaid a bydd cerbyd yr eiddo yn bacio ac yn gostwng ei ramp ar ben ramp y cerbyd sy'n dadlwytho. Cyn dechrau trosglwyddo anifeiliaid, bydd yn rhaid codi clwydi/rhwystrau/gatiau addas i atal yr anifeiliaid rhag dianc.

#### **(b) Defnyddio llociau**

Bydd angen codi dau loc, â giât yn arwain o'r naill i'r llall. Mae'n rhaid i Loc 1 fod yn ddigon mawr i ddal y cerbyd sy'n dadlwytho'r anifeiliaid. Bydd angen i'r lloc hwn fod ag wyneb galed e.e. concriid. . Nid oes yn rhaid bod gan Loc 2, a all fod yn adeilad neu ran o adeilad, wyneb galed. Caiff ei ddefnyddio i ddal yr anifeiliaid sy'n cael eu dadlwytho. Rhaid i'r llociau fod cyn agosed at ffin derfyn yr eiddo ag sy'n ymarferol ond nid ar ffordd gyhoeddus.. Rhaid gyrru'r cerbyd sy'n dadlwytho'r anifeiliaid i mewn i Loc 1. Rhaid cadw'r giât rhwng y ddau loc ar gau nes bod y cerbyd sy'n dadlwytho'r anifeiliaid yn Lloc 1 yn ei gyfanrwydd. Unwaith y bydd y cerbyd y tu mewn i Loc 1, gellir agor y giât sy'n cysylltu'r ddau loc a dadlwytho'r

anifeiliaid. Ar ôl defnyddio'r wyneb galed a'r lloc, rhaid eu glanhau a'u diheintio'n drwyadl, gan ddefnyddio diheintydd a gymeradwyir

D.S. Ni fydd angen i Loc 1 amgáu'r cerbyd sy'n dadlwytho'r anifeiliaid os oes yna gyfleusterau llwytho diogel arbenigol ar ffin derfyn yr eiddo lle bydd drysau ochr a/neu ramp y cerbyd sy'n dadlwytho'r anifeiliaid yn gallu bod gyfwyneb â gatiâu'r ardal dadlwytho i rwystro anifeiliaid rhag dianc.

## **Llwytho/Dadlwytho Sawl Gwaith ar yr un Siwrnai mewn Marchnadoedd a Chanolfannau Casglu**

5. Gellir llwytho/dadlwytho anifeiliaid mewn unrhyw fan addas ar dir y farchnad neu'r ganolfan casglu a gymeradwyir o dan y Gorchymyn Crynadau Anifeiliaid (Cymru) 2010. Unwaith y bydd yr anifeiliaid wedi'u dadlwytho, bydd yn rhaid glanhau a diheintio'r cerbyd a ddefnyddir i gludo'r anifeiliaid yn drwyadl gan ddefnyddio diheintydd a gymeradwyir a hynny'n unol â'r Gorchymyn Cludo Anifeiliaid (Glanhau a Diheintio) (Cymru) (Rhif 3) 2003 (fel y'i diwygiwyd).

## Amodau Aros ar y Siwrnai

Caniateir aros ar y siwrnai o dan yr amodau canlynol:

- (a) o aros, rhaid gwneud hynny yn un o'r canlynol:-
  - i) Man Gwasanaethau ar y Draffordd
  - ii) Cilfan swyddogol (ar gefnffordd/ffordd fawr)
  - iii) Maes Parcio Lorïau neu fan tebyg;
- (b) mae'n rhaid parcio'r cerbyd ar wyneb caled.
- (c) mae'n rhaid parcio'r cerbyd o leiaf 100 medr oddi wrth unrhyw anifeiliaid (yn cynnwys anifeiliaid ar gerbyd cludo da byw sy'n defnyddio'r un cyfleuster).
- (d) mae'n rhaid cario pecyn symudol glanhau a diheintio yn y cerbyd (h.y. bwced, dŵr, diheintydd cymeradwy a brwsh) neu, os na fydd y cyfryw becyn yn y cerbyd, bydd yn rhaid bod gan y fan lle y bydd y cerbyd yn aros gyfleusterau glanhau a diheintio.
- (e) mae'n rhaid glanhau unrhyw sam (deunydd gorwedd) dom, wrin ac ati sy'n gollwng o'r cerbyd a rhaid diheintio'r lle cyn i'r cerbyd adael; rhaid rhoi unrhyw ddeunydd gwastraff solid mewn bagiau mewn rhan arall o'r cerbyd lle na all anifeiliaid fynd iddi a mynd â'r bagiau i'r gyrchfan i'w gwaredu.
- (f) mae'n rhaid i'r gyrrwr gadw cofnod o'r fan(mannau) lle yr arhosodd a'r amser(au) a pheidio â'i daflu am 6 mis o leiaf.
- (g) ni chaniateir trosglwyddo anifeiliaid o un cerbyd i'r llall (na dadlwytho anifeiliaid ac eithrio mewn argyfwng) mewn mannau aros ar y ffordd, ni waeth pa un a drefnwyd hynny ymlaen llaw neu beidio, ac eithrio wrth lwytho/dadlwytho sawl gwaith ar yr un siwrnai. Wrth lwytho/dadlwytho sawl gwaith ar yr un siwrnai, rhaid cadw at amodau'r drwydded hon.

## Lles Anifeiliaid wrth eu Cludo

Mae Gorchymyn Lles Anifeiliaid (Cludo) (Cymru) 2007 yn gwneud darpariaeth yng Nghymru ar gyfer gweinyddu a gorfodi Rheoliad y Cyngor (EC) rhif 1/2005 ynghylch diogelu anifeiliaid wrth eu cludo a gweithgarwch cysylltiedig.

1. Yn ôl y Rheoliad, mae gofyn i'r sawl sy'n cludo anifeiliaid ar daith sicrhau:
  - a. Na fydd unrhyw un yn cludo anifeiliaid neu'n peri eu bod yn cael eu cludo, mewn ffordd a fydd yn debygol o'u hanafu neu wneud iddynt ddiodef.
  - b. Bod amser y teithiau mor fach â phosib.
  - c. Bod yr anifeiliaid yn ffit i deithio.
  - d. Bod y rheini sy'n trin anifeiliaid wedi'u hyfforddi ac yn gymwys.
  - e. Bod y cerbyd a'i gyfleusterau llwytho a dadlwytho wedi'u dylunio, eu hadeiladu a'u cynnal i osgoi anaf a dioddefaint ac i ofalu bod yr anifeiliaid yn ddiogel.
  - f. Bod yr anifeiliaid yn cael dŵr, porthiant a chyfle i orffwys yn ôl yr angen a bod digon o le ac uchder yn y cerbyd cludo iddynt.
2. Cludo hychod torrog a hychod sydd newydd borchella:
  - a. Nid yw hychod yn y 10% olaf o'u beichiogrwydd (tua 12 niwrnod) neu sydd wedi rhoi genedigaeth yn yr wythnos ddiwethaf yn ffit i'w cludo ac nid ydynt yn ffit chwaith ar gyfer marchnadoedd.
3. Cludo perchyll a pherchyll diddwyn
  - a. Nid yw porchell sydd â bogail sydd heb wella yn ffit i deithio
  - b. Rhaid i berchyll sydd lai na 10kg deithio bob amser ar sarn (deunydd gorwedd) addas i sicrhau eu bod yn gynnes.
  - c. Ar deithiau o fwy nag wyth awr, rhaid i berchyll 10kg neu lai gael teithio â'u mam.

